# Y CABINET DYDD MAWRTH, 11 TACHWEDD 2025

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Nia Wyn Jeffreys, Craig ab Iago, Dilwyn Morgan, Paul John Rowlinson, Menna Trenholme, June Jones, R Medwyn Hughes, Dewi Jones, Huw Wyn Jones a Llio Elenid Owen

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Aled Gibbard (Pennaeth Adran Plant dros dro), Alan Wyn Parry (Swyddog Cefnogi Busnes), Yr Athro Sally Holland (Cadeirydd Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Rebeca Jones (Rheolwr Polisi Cynllunio, Tirwedd a Natur), Y Cyng. Elwyn Edwards (Aelod Lleol Ward Llandderfel), Esyllt Rhys Jones (Rheolwr Rhaglenni Adfywio), Llŷr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Alun Gwilym Williams (Pennaeth Cynorthwyol Busnes), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth), Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) a Gwen Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

Nodwyd bod rhaid i'r Cyng. Dewi Jones a'r Cyng. Menna Trenholme adael y cyfarfod am 4:00yh er mwyn mynychu cyfarfod arall.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganwyd buddiant gan y Cyng. Nia Jeffreys mewn perthynas ag Eitem 6. Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a ni adawsant y cyfarfod.

Datganwyd buddiant gan y Cyng. Paul Rowlinson mewn perthynas ag Eitem 11, a bu i'r aelod adael y cyfarfod.

Datganwyd buddiant gan y Cyng. Dewi Jones mewn perthynas ag Eitemau 13 ac 14, a bu i'r aelod adael y cyfarfod.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD GYNHALIWYD AR 14 HYDREF

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2025 fel rhai cywir.

Tynnwyd sylw gan y Swyddog Monitro at y gwall yn y cyfieithiad o sylwadau'r Aelod Lleol yn adroddiad Eitem 8, y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2025.
Datganwyd mai geiriau Cymraeg yr Aelod Lleol oedd *"Pe byddai cynnig arfaethedig yma'n cael ei wireddu ni fyddai teuluoedd Cymru Cymraeg am ddod i fyw i'r pentref i fagu ei plant a rwyf yn tybio bydd mewnfudwyr yn prynu y tai ac yn gwneud y pentref yn le diarth".*
Nodwyd nad yw'r cyfieithiad *"and I assume immigrants will buy the houses and make the village a foreign place"* yn gyfieithiad cywir o'r uchod ac nad yw'n adlewyrchu bwriad yr Aelod Lleol.
Cadarnhawyd mai'r cyfieithiad cywir, a roddwyd gan Adran Gyfieithu'r Cyngor, yw "and I assume that incomers would buy the houses and make the village an unfamiliar place", sy'n adlewyrchiad mwy teg o fwriad yr Aelod Lleol.

Cynigiwyd ymddiheuriad i'r Aelod Lleol gan y Prif Weithredwr am y gwall hwn, gan nodi nad oedd y cyfieithiad gwreiddiol yn cynrychioli ei ddatganiad.

Derbyniwyd y newid hwn gan y Cabinet.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL RHIANT CORFFORAETHOL 2024/25

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad sy'n adrodd ar waith y Panel Rhiant Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn 2024/25.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan egluro'r cyfrifoldeb statudol sydd gan y Cyngor a'i bartneriaid i weithredu fel rhiant corfforaethol i bob plentyn mewn gofal yng Ngwynedd. Nodwyd mai nod y Cyngor yw bod bob plentyn mewn gofal yn byw bywyd hapus a diogel. Cadarnhawyd mai'r Panel sy'n goruchwylio'r gwaith hwn ar ran y Cyngor.

Amlygwyd bod 280 plentyn mewn gofal yng Ngwynedd ym mis Mawrth 2025, sydd 1 yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Ychwanegwyd bod llawer o symudiad o fewn y grŵp hwn, gyda phlant yn gadael ac eraill yn dod i mewn i ofal yn ystod y

flwyddyn.
Datganwyd bod 186 plentyn mewn lleoliadau maeth, 21 mewn lleoliadau preswyl, 54 wedi'u lleoli gyda'u rhieni, ac 15 o bobl ifanc yn byw yn annibynnol gyda chefnogaeth. Amlygwyd bod cynnydd yn nifer y plant mewn gofal sy'n cael eu lleoli yng Ngwynedd, gan ychwanegu bod lleoli plant yn agos at eu cymunedau yn gadarnhaol.

Datgelwyd bod y rhan fwyaf o'r plant a ddaeth i mewn i ofal yn ystod cyfnod yr adroddiad o dan 5 oed, a bod nifer o'r achosion yn gysylltiedig â phroblemau diogelu, camddefnyddio sylweddau, neu drais yn y cartref.
Cyfeiriwyd at y gefnogaeth sy'n cael ei gynnig i deuluoedd megis drwy'r Tîm o Amgylch y Teulu a'r Gwasanaethau Trobwynt, gan nodi eu bod yn parhau i gael effaith cadarnhaol.

Eglurwyd bod cynnydd cadarnhaol yn y nifer o gartrefi maeth cofrestredig, yn ogystal â lleihad yn y nifer o blant a brofodd 3 neu fwy o symudiadau yn eu lleoliad.
Yn ystod 2024/25 datblygwyd pecyn o fuddiannau i ofalwyr maeth y Sir, sy'n cynnwys gostyngiad mewn Treth Cyngor, tocyn parcio am ddim, a defnydd o ganolfannau hamdden.

Cyfeiriwyd at y Prosiect Cartrefi Grŵp Bychain gan nodi bod 3 eiddo newydd wedi ei brynu yn ystod y flwyddyn. Amlygwyd bod y cartref cyntaf wedi ei agor ym Morfa Bychan, a bod dau dŷ arall ar y gweill.

Mynegwyd balchder bod perfformiad iechyd plant mewn gofal wedi gwella'n sylweddol, gan nodi bod cyfran helaeth o'r plant hyn wedi cofrestru â meddyg teulu a deintydd. Pwysleisiwyd bod cyd weithio agos gyda CAMHS a'r gwasanaeth iechyd i sicrhau cefnogaeth addas i bob plentyn.

Nodwyd bod y Panel wedi bod yn archwilio sut i wneud Gwynedd yn Gyngor 'Trawma Wybodus' gan gynnig hyfforddiant i'r gweithlu.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Panel yn drawsadrannol ac ymfalchïwyd ei fod yn gosod safonau'r Cyngor yn uchel.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Cydnabuwyd a diolchwyd i rieni maeth am y gwaith gwych a gaiff ei wneud ganddynt ar draws y Sir. Holwyd am effaith y newid mewn rheoliadau i wneud lleoliadau plant yn ddielw. Cadarnhawyd bod bwriad i'r lleoliadau plant fod yn ddielw erbyn 2030, ond nad yw'r ateb yn ddu a gwyn ar y pwynt hwn. Nodwyd bod y Ddeddf yn dod i rym yn 2026, ond ei fod yn rhoi tan 2030 i wneud y gwaith trosiannol hynny.
- Gofynnwyd am fwy o wybodaeth ynglŷn â threfniadau ynghylch plant sydd wedi eu lleoli'n all sirol, a'r lleoliadau heb eu cofrestru. Sicrhawyd mai'r un yw'r trefniadau ar gyfer plant sydd wedi eu lleoli o fewn y Sir a thu allan i'r Sir, gan amlygu eu bod yn aros yn gyfrifoldeb i Wynedd. Soniwyd am y 3 achos a gofnodwyd yn 2024/25 o ddefnyddio trefniadau lleoliadau heb gofrestriad, gan egluro bod y rhain yn achosion lle'r oedd trefniadau lleoliad blaenorol y plant wedi torri i lawr ac felly doedd dim modd dod o

hyn i leoliad cofrestredig arall ar eu cyfer. Nodwyd bod rhaid rhoi gwybod i'r Arolygaeth Gofal pan mae trefniant o'r fath yn cael ei roi mewn lle, sydd yna'n monitro'r trefniant.

- Ymfalchïwyd bod cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o ofalwyr maeth o'i gymharu â'r llynedd.
- Holwyd os oes rheswm penodol y tu ôl i'r cynnydd hwn yn y nifer o ofalwyr maeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Esboniwyd nad oes ateb pendant am hyn, ond cadarnhawyd bod ymgyrchoedd cyson yn cymryd lle i geisio ennyn diddordeb, a bod y Cyngor yn ceisio ymateb yn amserol i unrhyw ddatganiad o ddiddordeb. Soniwyd am effaith cadarnhaol Maethu Cymru yn ogystal.
- Rhoddwyd mwy o wybodaeth i'r aelodau am y Gwasanaeth Niwroddatblygol. Nodwyd bod y gwaith hwn yn ehangach na gwaith y Panel. Amlygwyd bod ffocws wedi bod yng Ngwynedd ar godi ymwybyddiaeth ymysg y gweithlu a chynnig cefnogaeth pan mae'n briodol.
- Amlygwyd bod bwlch cyrhaeddiad rhwng plant sydd mewn gofal a phlant nad ydynt mewn gofal, a gofynnwyd a oes unrhyw beth ar droed i gau'r bwlch hwnnw. Nodwyd bod cyfle yma i gynnal trafodaethau traws adrannol i allu deall ac ymateb i'r bwlch hwn.

## 7. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL A HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD 2024/2025

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25 ac argymhellwyd i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu.

**TRAFODAETH**

Mynegwyd balchder o gyflwyno'r adroddiad, gan nodi mai hwn yw'r ail adroddiad perfformiad o Gynllun y Cyngor 2023-2028.
Crybwyllwyd bod sylw wedi ei roi i sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a gaiff eu cynnwys yn yr adroddiad.

Datganwyd bod y ffaith i'r Cyngor allu cyflawni cymaint eleni gyda chyllideb hollol annigonol, yn wyrthiol.

Nodwyd bod y dogfennau yn coladu ystod eang o wybodaeth, a chaiff yr adroddiadau hyn eu cynnwys fel tystiolaeth i'r Asesiad Perfformiad Panel y flwyddyn nesaf.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Crybwyllwyd y gwelliannau i isadeiledd rhai o ganolfannau hamdden y Sir, sy'n cynnwys cwrt Padel newydd.
- Cyfeiriwyd at y rhestr o'r gwaith sydd wedi'i gyflawni o dan y pennawd 'Gwynedd Lewyrchus', ac ategwyd bod y sefyllfa gyfredol yn golygu na fydd gan y Cyngor yr arian i gyflawni hanner cymaint wrth fynd ymlaen.
- Amlygwyd pwysigrwydd partneriaid allanol a staff y Cyngor er mwyn gallu cyflawni'r holl waith o dan y pennawd 'Gwynedd Ofalgar'.
- Nodwyd y cysylltiad rhwng darparu tai addas â'r uchelgeisiau sydd wedi eu gosod o dan y maes blaenoriaeth 'Gwynedd Glyd'. Ychwanegwyd ei fod yn waith cymhleth a hirdymor, sydd am fynd i'r afael â nifer o broblemau ehangach. Amlygwyd yr angen i gydweithio â Llywodraeth Cymru a chymdeithasau tai i allu cyrraedd y nod.
- Soniwyd am y Grantiau Tai Cymdeithasol ychwanegol sydd wedi eu denu gan Lywodraeth Cymru, gan nodi y bydd y grant a dderbyniwyd yn 2024/25 yn galluogi i bartneriaid y Cyngor godi o leiaf 50 o unedau ychwanegol.
- Adnabuwyd bod y pwysau o ran digartrefedd yn gynyddol, gan nodi fod prosiectau wedi eu cwblhau neu ar y gweill er mwyn darparu llety argyfwng i bobl ddigartref ar draws y Sir. Cyfeiriwyd at yr angen am fwy o dai cymdeithasol er mwyn gallu mynd i'r afael â digartrefedd.
- Wrth gyfeirio at yr her o ddenu staff i'r maes gofal, mynegwyd balchder am yr Academi Ofal sydd wedi ei lansio a'r nifer o staff gwych sydd wedi dod drwy'r Academi.
- Datganwyd bod buddsoddi helaeth yn cael ei wneud yn adeiladau ysgolion Gwynedd a'r Canolfannau Iaith o fewn y Sir. Ategwyd bod hyn yn rhan o'r bwriad i gynnig ysgolion ac addysg sy'n diwallu anghenion holl blant a phobl ifanc Gwynedd.
- Rhybuddiwyd y bydd y diffyg ariannol pellach mae'r Cyngor yn ei wynebu yn ei gwneud hi'n anoddach fyth i'r Cyngor allu cyflawni i'r un lefel a wnaed yn y gorffennol.

## 8. ADRODDIAD CHWARTEROL - CADEIRYDD Y BWRDD RHAGLEN CYNLLUN YMATEB (TACHWEDD 2025)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad gerbron sef yr ail adroddiad chwarterol gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

**TRAFODAETH**

Amlygwyd mai hwn yw'r ail adroddiad chwarterol gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.
Eglurwyd i'r Adolygiad Ymarfer Plant gael ei gyhoeddi ar y 4ydd o Dachwedd. Tynnwyd sylw at ddewrder y dioddefwyr a'r goroeswyr, gan nodi eu bod ar flaen meddyliau pob un wrth drafod y pwnc anodd hwn.

Nodwyd bod yr adroddiad yn erchyll i'w ddarllen a'i fod yn amlygu methiannau'r Cyngor. Ymddiheurwyd yn ddiffuant i'r dioddefwyr a phawb a gafodd eu heffeithio gan y troseddau ffiaidd, gan sicrhau y bydd y Cyngor yn gweithredu ar argymhellion yr Adolygiad Ymarfer Plant.
Datganwyd bod yr adroddiad gerbron yn diweddaru'r Cabinet ar waith y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb. Paratowyd yr Adroddiad gan Gadeirydd Annibynnol y Bwrdd, sef Yr Athro Sally Holland. Esboniwyd bod yr Adroddiad hwn wedi ei ysgrifennu cyn i'r Adolygiad Ymarfer Plant gael ei gyhoeddi, ac nad yw'r Bwrdd wedi cael cyfle eto i gyfarfod yn dilyn y cyhoeddiad hwn.

Croesawyd Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb i'r cyfarfod. Cydnabuwyd bod yr Adolygiad Ymarfer Plant wedi'i gyhoeddi a'r canfyddiadau'n erchyll. Nodwyd bod y diwylliant ehangach o fwlio ac ymddygiadau annerbyniol gan y Pennaeth hwn, a'r cyfleoedd a gollwyd i herio ac atal niwed pellach, yn gwneud darlleniad sobor.
Pwysleisiwyd bod angen newid, yn enwedig mewn materion diwylliannol ehangach o herio arferion gwael neu annerbyniol a system trin pryderon a chwynion.

Yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Rhagfyr, bydd cynllun wedi ei lunio a set o fesurau effeithiolrwydd wedi eu diweddaru. Bydd y Cynllun yn adlewyrchu'r argymhellion o'r Adolygiad Ymarfer Plant gan barhau i adolygu'r cylch gorchwyl i gryfhau ffyrdd o weithio.
Cyfeiriwyd at adroddiad y Bwrdd wrth sôn am y cynnydd sydd wedi ei wneud ers yr adroddiad blaenorol, yn ogystal â'r meysydd a fu'n fwy heriol. Ategwyd yr angen am ddiwylliant o her ar draws yr Awdurdod Lleol a'r angen i hynny fod yn bresennol yn y Bwrdd yn ogystal. Nodwyd bod hyn yn cynnwys diweddariadau ysgrifenedig gan Swyddogion, mesurau effaith, adroddiadau arolygu, ac ychwanegwyd bod y Cadeirydd yn cyfarfod â'r asiantau i drafod eu profiadau hwy o'r Cynllun.

Cadarnhawyd gan y Cadeirydd ei bod hi ac aelodau eraill y Bwrdd eisiau i Wynedd lwyddo yn eu hymateb. Nodwyd ei bod eisiau i bobl Gwynedd fod yn hyderus bydd y system ddiogelu yn gwneud y gwaith sydd ei angen i sicrhau bod bob plentyn yn cael ei gefnogi ac yn ffynnu.

Amlygwyd pwysigrwydd cynnig tryloywder yn y gwaith sy'n mynd rhagddo, gan bwysleisio y bydd y gwaith hwn yn galed ac yn cymryd adnoddau.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Cytunwyd ar bwysigrwydd gwrando ar lais y plentyn, a nodwyd bod nifer o agweddau o gynnwys llais y plentyn y gall y Cyngor wneud gwaith cadarnhaol yn datblygu arnynt. Amlygwyd y bydd awgrymiadau gan y Bwrdd yn gynwysedig yng Nghynllun newydd Gwynedd er mwyn sicrhau fod pwyslais ar lais y plentyn, a bod eu lleisiau'n cael eu cynnwys mewn penderfyniadau strategol.
- Datgelwyd pryder o ran adnoddau gan gwestiynu rôl hir dymor Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau fod systemau Cyngor Gwynedd yn gadarn, gan flaenoriaethu adnoddau i'r gwaith hollbwysig hwn.

Soniwyd am yr adnoddau ychwanegol dros dro sydd wedi'u darparu i Wynedd gan y Llywodraeth yn flaenorol i ymgymryd â'r gwaith hwn, a nodwyd bod gobaith i unrhyw fesurau newydd gael eu cyllido'n ddigonol.

- Darparwyd sicrwydd y bydd pob cam angenrheidiol yn cael ei gymryd i fynd i'r afael ag unrhyw achos o gam ymddwyn neu fethiant i gyrraedd y gofynion statudol neu broffesiynol.

## 9. YMGYNGHORIAD STATUDOL AR BARC CENEDLAETHOL ARFAETHEDIG GLYNDWR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr ymateb yn Atodiad 4 fel ymateb Cyngor Gwynedd ar yr ymgynghoriad statudol gan ychwanegu gwrthwynebiad i'r gorchymyn dynodi drafft a ffin arfaethedig i Barc Cenedlaethol Arfaethedig Glyndŵr.

Dirprwywyd yr hawl i Bennaeth Adran yr Amgylchedd wneud unrhyw addasiadau ansylweddol y gallai fod yn ofynnol i'r ymateb cyn iddo gael ei gyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru.

**TRAFODAETH**

Esboniwyd mai trafod ymateb y Cyngor i'r Ymgynghoriad Statudol ar Barc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr yw pwrpas yr eitem. Datganwyd gan yr Aelod Cabinet perthnasol ei fod yn ceisio perswadio'r Cabinet i newid ymateb y Cyngor i'r Ymgynghoriad.
Amlygwyd yr argyfyngau ariannol, amgylcheddol a thai, a'r holl doriadau sy'n wynebu'r Cyngor a chymdeithas ar hyn o bryd. Nodwyd nad yw datblygu Parc Cenedlaethol newydd felly yn flaenoriaeth i drigolion.

Croesawyd Aelod Lleol Ward Llandderfel i'r cyfarfod ac ategwyd ganddo eiriau'r Aelod Cabinet. Tynnwyd sylw at y ffaith fod y Parciau Cenedlaethol cyfredol wedi bod yn cael eu tanariannu'n flynyddol.
Pryderwyd yn ogystal am effaith Parc Cenedlaethol newydd ar or-dwristiaeth yn ardal Llandderfel ac ar y Gymraeg yn y gymuned leol. Nodwyd bod canran uchel o dai haf a thai gwyliau yn Llandderfel ar hyn o bryd, a thynnwyd sylw at y ffaith bod prisiau tai yn uwch fyth o fewn y Parciau Cenedlaethol. Pryderwyd am effaith ehangach hyn ar y gymdeithas.

Amlygwyd y diffyg gwybodaeth am y dynodiad hwn a'i effaith posib, ac ategwyd y pryderon am yr effaith ar y Gymraeg a nodwyd gan yr Aelod Cabinet a'r Aelod Lleol.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Cwestiynwyd pam fod y pwnc hwn yn cael ei flaenoriaethu gan y Llywodraeth tra bod cymaint o argyfyngau mewn amryw o feysydd yn ein wynebu. Galwyd ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu cymunedau di-freintiedig y Sir yn hytrach na phrosiectau fel hyn.
- Os yw gwerth y tir hwn mor uchel, holwyd am y rhesymeg y tu ôl i geisio sefydlu'r Parc Cenedlaethol hwn yn hwyrach na'r 3 Pharc arall.
- Newidiwyd y penderfyniad a geisir er mwyn nodi gwrthwynebiad y Cyngor i'r Ymgynghoriad Statudol.

## 10. CYNNAL PLEIDLAIS ARDALOEDD GWELLA BUSNES CAERNARFON

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. R Medwyn Hughes.

**PENDERFYNIAD**

1. Nodwyd bod y Cynnig Ardal Gwella Busnes (AGB) a dogfennau atodol gan HWB
Caernarfon wedi eu derbyn gan y Cyngor a'u bod yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau;

2. Cyfarwyddwyd y Swyddog Canlyniadau i gynnal pleidlais HWB Caernarfon;

3. Cymeradwywyd y trefniadau a'r goblygiadau ariannol a nodir yn Rhan 3 o'r adroddiad;

4. Dirprwywyd yr hawl i Aelod Cabinet Economi i bleidleisio ar ran yr Awdurdod ym
mhleidlais yr AGB.

5. Os yw'r bleidlais yn llwyddiannus yng Nghaernarfon ac yn unol â Rheoliadau Ardal Gwella Busnes (Cymru) 2005, dirprwyir hawl i Bennaeth Gwasanaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad â phenaethiaid yr adrannau canlynol i gymeradwyo'r fersiwn derfynol o'r Cytundeb Ymarferol a'r Cytundeb Gwaelodlin a chwblhau y cytundebau yn unol a threfniadau y Cyngor:
• Amgylchedd
• Priffyrdd, Peirianneg ac YGC
• Cyfreithiol
• Cyllid.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr eitem gan esbonio mai gofyn am ganiatâd pleidlais mae'r adroddiad.
Tywyswyd yr aelodau drwy'r penderfyniad a geisir a nodwyd bod y mater dan sylw yn dechnegol.

## 11. CYSONI FFIOEDD AM OFAL I OEDOLION YNG NGWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan.

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadwyd Polisi Codi Tâl am ofal diwygiedig yn unol ag argymhellion yr adroddiad hwn.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod yr adran wedi asesu'r ffioedd sydd eisoes yn cael eu codi am ofal yng Ngwynedd, ac amlygwyd bod diffyg cysondeb ar draws y Sir.

Adnabuwyd bod y Polisi cyfredol mewn lle ers 2017 a'i fod yn cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ychwanegwyd bod y Polisi diwygiedig hefyd yn cyd-fynd â rheoliadau'r ddeddf hon.

Nodwyd bod y Polisi hwn wedi bod gerbron y Pwyllgor Craffu Gofal a bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei gynnal.

Cadarnhawyd nad yw'r Polisi newydd yn golygu y bydd cynnydd mewn ffioedd i unigolion sydd eisoes yn talu, ond fe fydd yn cysoni ar draws y Sir. Ategwyd pwysigrwydd hyn ar gyfer cynaliadwyedd y gwasanaethau.

Ychwanegwyd y bydd y bobl hynny sy'n dod o dan y polisi hwn yn gymwys ar gyfer asesiad ariannol trylwyr, er mwyn sicrhau nad ydynt yn talu mwy nac y gallent ei fforddio. Eglurwyd bod uchafswm Llywodraeth Cymru o £100 yr wythnos o gyfraniad gan unigolion yn dal i fod yn ei le.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Mynegwyd balchder bod yr uchafswm o £100 yr wythnos yn dal i fod yn ei le, a holwyd os oes cymorth ariannol ar gael i gynorthwyo gyda'r ffioedd hyn. Cyfeiriwyd at yr asesiad ariannol y bydd pawb sy'n dod o dan y Polisi hwn yn gymwys amdano, er mwyn gweld faint a fydd disgwyl iddynt gyfrannu. Nodwyd bod cefnogaeth gan y tîm er mwyn gweld os yw'r rheiny sy'n gorfod talu yn gymwys am unrhyw fudd-daliadau a fuasai'n gymorth iddynt wrth gyfrannu at y ffi.
- Tynnwyd sylw at y ffaith na fydd y Cyngor yn codi ffi am ofal uniongyrchol i ofalwyr di-dâl, nac yn codi ffi am gefnogi unigolion i fynd i mewn i gyflogaeth.

## 12. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR YMESTYN Y DYLETSWYDD AR AWDURDODAU LLEOL I DDARLLEDU CYFARFODYDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Llio Elenid Owen.

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadwyd yr ymatebion i gwestiynau Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar

ymestyn y dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarlledu cyfarfodydd (fel a nodir yn Atodiad A), er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad ar ran y Cyngor.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad i ymestyn dyletswydd ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor. Er mai cyfarfodydd y Cyngor llawn sy'n ofynnol i'w darlledu, amlygwyd bod Cyngor Gwynedd eisoes yn gwe ddarlledu cyfarfodydd y Cabinet, Cynllunio, a'r 3 pwyllgor Craffu yn ogystal.

Datganwyd bod y Cyngor yn croesawu ymestyn mynediad pobl Gwynedd at waith y Cyngor ond pryderwyd am y pwysau ychwanegol byddai hyn yn ei roi ar y Cyngor yn ariannol ac o ran adnoddau staffio. Ategwyd y pryder am yr adnoddau technegol sydd eu hangen i allu sicrhau hyn, gan nad oes systemau safonol ar gyfer gwe ddarlledu cyfarfodydd yn bodoli yng Nghymru.

Tynnwyd sylw at yr effaith cadarnhaol posib y gall gwe ddarlledu mwy o gyfarfodydd ei gael ar y Gymraeg.

Eglurwyd bod trafodaeth wedi cymryd lle yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ynglŷn â'r mater hwn, a bod yr aelodau hynny yn cytuno gyda'r egwyddor ond yn pryderu am yr adnoddau a fydd eu hangen er mwyn gweithredu'r cynlluniau hyn.

## 13. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU CODI PREMIWM AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones

**PENDERFYNIAD**

Argymhellwyd i'r Cyngor llawn ar 4 Rhagfyr 2025 mai'r canlynol yw'r opsiwn a ffafrir o safbwynt lefel y Premiwm ar Dreth Cyngor Ail Gartrefi ac Anheddau Gwag Hirdymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27:

• Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).

• Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).

• Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 150% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. yn cynyddu'r premiwm o 100% i 150%).

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bod rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniad

blynyddol os ydyw am godi Premiwm ar Dreth Cyngor eiddo gwag hir-dymor ac ail gartrefi, yn unol â gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Amlygwyd bod Cyngor Gwynedd wedi codi Premiwm o 150% ar dreth Cyngor ail gartrefi perthnasol, a Phremiwm o 100% ar anheddau gwag hir dymor ers y 1af o Ebrill 2023.

Eglurwyd mai'r penderfyniad a geisir yw i gadw'r un lefel o Bremiwm treth Cyngor ar ail gartrefi a chaiff ei godi'n bresennol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27, ac yna cynyddu'r Premiwm i 150% ar eiddo gwag hir dymor.

Mae ymchwil parhaus wedi'i gynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i adnabod tueddiadau a dod i gasgliad ynglŷn â faint o'r newidiadau hyn sy'n ganlyniad uniongyrchol o'r Premiwm.
Adnabuwyd bod cynnydd yn nifer yr ail gartrefi ers 2024/25, a hynny'n dilyn sawl blwyddyn o leihad yn y niferoedd.
Aethpwyd ymlaen i nodi bod y nifer o eiddo gwag hir dymor wedi aros yn gyson a bod trigolion Gwynedd yn gweld eiddo o'r fath yn niweidiol.

Adroddwyd bod cyfiawnhad i beidio cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arall, ond petai'r Cyngor am gynyddu'r Premiwm ymhellach, byddai'n rhaid ymgynghori.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Tynnwyd sylw at y ffaith mai bwriad y Premiwm yw i fynd i'r afael â'r argyfwng tai sy'n wynebu'r Sir, ac mai'r gobaith wrth gynyddu'r Premiwm yw lleihau'r nifer o dai gwag yng Ngwynedd.

## 14. POLISI LLEIHAU TRETH CYNGOR O DAN ADRAN 13A(1)(C) O DDEDDF CYLLID LLYWODRAETH LEOL 1992

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones

### PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd Polisi Lleihau Treth Cyngor o dan Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i roi arweiniad a ffiniau clir i swyddogion ar y defnydd o eithriadau rhag y Premiwm a'r Dreth Cyngor sylfaenol.

### TRAFODAETH

Datganwyd bod Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn rhoi pwerau disgresiwn ychwanegol i'r Cyngor leihau swm y dreth Cyngor sy'n daliadwy ar gyfer unigolion neu ddosbarthiadau o drethdalwyr.

Amlygwyd y defnyddia'r Cyngor Adran 13A o Ddeddf 1992 i gyflwyno eithriadau lleol, dewisol mewn achosion cyfyng iawn.

Rhoddwyd ystyriaeth i achosion sydd wedi cael eu cyflwyno i'r Adran Gyllid dros nifer o flynyddoedd wrth lunio'r Polisi arfaethedig. Ychwanegwyd y gallai'r rhain fod yn geisiadau am ostyngiad mewn Treth Cyngor sylfaenol, y Premiwm, neu'r ddau.

Nodwyd bod eithrio o'r Dreth sylfaenol gan ddefnyddio Adran 13A yn gost uniongyrchol ar goffrau'r Cyngor, felly bod rhaid osgoi gosod cynsail a allai niweidio'r Cyngor yn ariannol yn y tymor hir.

Crybwyllwyd bod Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar hyn o bryd, a all arwain at addasu rhai o'r eithriadau statudol. Nodwyd y caiff y Polisi ei gadw o dan adolygiad parhaus, a'i addasu wrth i unrhyw newidiadau deddfwriaethol gael eu cyflwyno.

Amlygwyd y bydd y Polisi arfaethedig hwn yn galluogi pob cais gael ei ystyried ar ei rinwedd ei hun. Pwysleisiwyd pwysigrwydd i swyddogion y gwasanaeth trethi gael ganllawiau clir i'w dilyn, ac ychwanegwyd bod cael panel i ystyried ceisiadau yn fodd o gael cysondeb mewn penderfyniadau.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Holwyd am yr orfodaeth ar berchnogion ail gartrefi lleol i orfod talu Premiwm wedi ôl-ddyddio i flynyddoedd cyn i'r Ddeddfwriaeth newydd ddod yn weithredol. Nodwyd bod nifer o eiddo wedi eu trosglwyddo'n ôl o fand treth busnes i fand treth Cyngor ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd. Amlygwyd mai Swyddfa'r Prisiwr sy'n gosod y dyddiad gweithredol o pryd mae'r dreth Cyngor ar eiddo yn ddyledus a bod rhaid i'r Cyngor weithredu yn unol â hynny. Ymhelaethwyd ar hyn gan nodi fod nifer o'r ail gartrefi hyn a oedd yn dychwelyd i fand treth Cyngor hefyd yn disgyn o dan y Premiwm, gan nad oedd unrhyw un yn byw ynddynt. Nodwyd bod y Polisi hwn yn galluogi'r Cyngor edrych ar yr holl eithriadau sydd ar gael iddynt, ac yn rhoi'r grym i allu edrych ar achosion penodol.

## 15. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones

**PENDERFYNIAD**

1.1 Derbyniwyd y wybodaeth yn yr adroddiad a nodwyd y cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2025/26 a blynyddoedd blaenorol.

1.2 Cymeradwywyd dileu un cynllun arbedion gwerth £25k perthnasol i 2025/26 yn y maes Cyswllt Cwsmer yn yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol, gan ddefnyddio'r ddarpariaeth arbedion a osodwyd o'r neilltu yn y gyllideb gorfforaethol.

1.3 Cymeradwywyd arian pontio o £80k y flwyddyn am gyfnod o ddwy flynedd ar gyfer 2025/26 a 2026/27 i gynllun arbedion Neuadd Dwyfor yn yr Adran Economi a Chymuned.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod yr adroddiad yn crynhoi sefyllfa arbedion y Cyngor yn dilyn adolygiad ddiwedd Awst.

Adroddwyd bod arbedion gwerth £3.5 miliwn wedi eu proffilio ar gyfer cyllideb 2025/26. Datganwyd bod trafferthion gwireddu arbedion mewn rhai meysydd dros y blynyddoedd diwethaf.

Datgelwyd bod cynlluniau arbedion hanesyddol am y cyfnod o flwyddyn ariannol 2015/16 hyd at y flwyddyn ariannol 2025/26, wedi'u cynnwys yn Atodiad 1. Amlygwyd bod 98% o'r arbedion hanesyddol bellach wedi eu gwireddu, sy'n gadael cynlluniau gwerth £627,000 yn parhau heb eu gwireddu.

Gan gyfeirio at Atodiad 2, eglurwyd bod y cynlluniau arbedion diweddaraf werth £15.6 miliwn. Ychwanegwyd bod 77% o'r arbedion eisoes wedi eu gwireddu, a 4% pellach ar drac i gael eu cyflawni'n amserol.

Crybwyllwyd bod gwerth yr arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo ar gyfer 2026/27 ymlaen i'w gweld yn Atodiad 3.

Crynhowyd yr eitem gan adrodd bod £46 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu, sydd yn 92% o'r £50 miliwn gofynnol dros y cyfnod. Rhagwelir y bydd 1.3% pellach yn cael eu gwireddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## 16. CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2025

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones

**PENDERFYNIAD**

1.1 Cymeradwywyd cymorth ariannol ychwanegol uwchlaw'r taliad cytundebol sydd yn amcanu i fod yn £219k i Gwmni Byw'n Iach i'w gyllido o'r gronfa trawsffurfio, gan ddirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet dros Economi mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Cyllid, Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i gytuno ar swm y gefnogaeth ariannol derfynol uwchlaw y tâl cytundebol gyda Byw'n Iach ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

1.2 Gofynnwyd i'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Amgylchedd gyflwyno adroddiad pellach ar yr opsiynau posib ar gyfer ariannu'r costau o ddiogelu/dymchwel adeilad y Corbett Arms yn Nhywyn.

1.3 Cymeradwywyd trosglwyddiad o £3.757 miliwn o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor, gyda'i ddefnydd i'w ystyried cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

1.4 Cymeradwywyd y trosglwyddiadau ariannol fel yr amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, gan ddileu gwerth £576k o falansau negyddol ar gronfeydd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant sef £300k a'r Adran Plant a Theuluoedd £276k, yn dilyn i'r adrannau fethu cyflawni gwasanaethau o fewn eu cyllideb dros y tair blynedd ddiwethaf.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd bod yr adroddiad hwn yn manylu ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am y cyfnod 2025/26, a'r rhagolygon tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Symudwyd ymlaen i ddatgan bod rhagolygon o orwariant o £6.3 miliwn gan adrannau'r Cyngor yn dilyn adolygiad diwedd Awst, gyda 75% ohono yn y maes gofal, oedolion a phlant. Ychwanegwyd bod gorwariant sylweddol yn y meysydd gwastraff, priffyrdd a bwrdeistrefol yn ogystal. Cadarnhawyd bod tanwariant ar gyllidebau corfforaethol, sydd yn lleihau'r rhagolygon gorwariant yn ei gyfanrwydd i £2.5 miliwn.
Tywyswyd y Cabinet drwy Atodiad 2, gan dynnu sylw at y diffyg cyllidebol sy'n wynebu nifer o adrannau'r Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Nodwyd bod hyn yn sefyllfa a chaiff ei gweld yn flynyddol, sef cynnydd yn y galw ond lleihad yn y gyllideb. Ychwanegwyd mai tan-gyllido yw'r broblem, nid gorwariant.
- Tynnwyd sylw at y darlun cenedlaethol a'r ffaith bod Cynghorau ar draws Cymru yn gorwario yn yr un meysydd. Nodwyd bod y gorwariant yn debygol o fod yn uwch y flwyddyn nesaf oherwydd nad oes cyllid i'w roi i mewn.
- Datganwyd siom bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn meysydd sydd ddim yn elwa'r gymdeithas.
- Soniwyd bod yr Adran Tai ac Eiddo wedi prynu eiddo ym Mangor a Chaernarfon er mwyn rhoi llety i bobl ddigartref, a fydd yn lleihau costau llety dros dro megis gwely a brecwast.

## 17. RHAGLEN GYFALAF 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST (SEFYLLFA 31 AWST 2025)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones

**PENDERFYNIAD**

• Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2025) o'r

rhaglen gyfalaf.
• Cymeradwywyd yr addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd ar 6 Mawrth 2025 o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:
-cynnydd o £290,000 mewn defnydd o fenthyca
-cynnydd o £13,390,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
-cynnydd o £36,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
-lleihad o £2,743,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
-cynnydd o £29,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd mai prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf diwygiedig (sefyllfa 31 Awst 2025), a chymeradwyo'r addasiadau i'r ffynonellau ariannu perthnasol. Nodwyd y ceir dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £153 miliwn am y 3 blynedd 2025/26 - 2027/28.

Cyfeiriwyd at Ran 3.2.3 o'r adroddiad, sy'n manylu ar y ffynonellau i ariannu'r cynnydd net o £48miliwn ers y gyllideb wreiddiol, gyda £37miliwn ohono yn deillio o ail broffilio ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol.

Adroddwyd mai'r prif gasgliadau yw bod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi £101miliwn yn 2025/26 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £47miliwn (47%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol.

Mae £12 miliwn o wariant arfaethedig ychwanegol wedi'i ail-broffilio o 2025/26 i 2026/27 a 2027/28. Cyfeiriwyd at Atodiad 2 wrth sôn am y prif gynlluniau sydd wedi llithro ers y gyllideb wreiddiol.
Rhestrwyd y grantiau ychwanegol, gwerth £13 miliwn, y llwyddodd y Cyngor eu denu ers y gyllideb wreiddiol.

Dechreuodd y cyfarfod am 1yh a daeth i ben am 4:15yh.

**CADEIRYDD**